Beth i’w wneud os credwch fod dyfarniad anghywir wedi ei wneud ynglŷn â’ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor

(What to do if you think the decision about your Housing Benefit or Council Tax Benefit is wrong)

Mae’r daflen hon yn rhoi eglurhad ynglŷn â beth i’w wneud os credwch fod dyfarniad anghywir wedi ei wneud ynglŷn â’ch Budd-dal Tai a’ch/neu’ch Budd-dal Treth Cyngor. Mae’r rheolau’n genedlaethol a’r un fath ym mha bynnag ardal yr ydych yn byw ynddi. Os nad ydych yn gwybod pa gyngor sy’n gyfrifol am eich ardal chi, gallwch ddod o hyd iddo ar eich bil Treth Cyngor.

Cyflwyniad

Pan wnewch gais am Fudd-dal Tai a/neu Treth Cyngor, cewch wybod trwy lythyr beth fydd y dyfarniad ynglŷn â'ch cais. Os na fyddwch yn cytuno ag o, gallwch ofyn am iddo gael ei adolygu.

Gallwch wneud hyn mewn gwahanol ffyrdd. Gallwch gysylltu ag Adran Budd-daliadau eich Cyngor lleol i:

- Ofyn am eglurhad ynglŷn â'r dyfarniad
- Ofyn iddynt ail-ystyried y dyfarniad
- Apelio yn erbyn y dyfarniad

I wneud cais am un o'r opsiynau hyn, mae'n angenrheidiol mai chi yw'r person yr effeithiwyd arno/arni.

Pwy sy'n berson yr effeithiwyd arno/arni?

Person yr effeithiwyd arno/arni yw:

- yr hawliwr
- rhywun sy'n gweithredu ar ran yr hawliwr a benodwyd gan y llysoedd
- rhywun y mae'r Cyngor yn cytuno iddo gael ei benodi i weithredu ar ran yr hawliwr
- y landlord – ond yn unig mewn materion sydd a wnelont â'r sawl y telir budd-dal iddo
- yr asiant - ond yn unig mewn materion sydd a wnelont â'r sawl y telir budd-dal iddo
- unrhyw un y penderfynir y dylid adennill gordaliad ganddo/ganddi.

Golyga hyn mai'r hawliwr yn unig all ofyn i'r Cyngor adolygu dyfarniad sy'n ymwneud â chyfrifo swm sy'n ddyledus i hawliwr. Y landlord neu'r asiant yn unig all ofyn i'r Cyngor adolygu dyfarniad ynglŷn â ph'run a ddylai taliad gael ei wneud i landlord a ph'run ai oedd dyfarniad i adennill gordaliad gan landlord neu asiant wedi cael ei wneud mewn modd cywir.

Nodiadau pwysig

Mae swm y budd-dal sy'n daladwy yn fater rhwng y Cyngor a'r hawliwr. Y tenant yn unig all ofyn i'r Cyngor adolygu swm y budd-dal sy'n daladwy. Os yw'r Cyngor yn gostwng budd-dal tenant er mwyn adennill gordaliad mewn perthynas â chyfeiriad arall, ni all y landlord presennol apelio yn erbyn y dyfarniad i adennill y gordaliad hwnnw.

Landlordiaid a'u hapeliadau

Hawliau apelio cyfyngedig yn unig sydd gan landlordiaid pan anghytunant â dyfarniadau ynglŷn â budd-daliadau tai eu tenantiaid.

- Gall landlordiaid apelio os mai'r dyfarniad yw peidio â thalu budd-dal eu tenant yn uniongyrchol i'r landlord
- Gall landlordiaid apelio os gofynnir iddynt dalu'n ôl ordaliad wedi i ormod o fudd-dal gael ei dalu ar ran un o'u tenantiaid
- Ond ni all landlordiaid apelio ynglŷn â faint o fudd-dal gaiff eu tenant.

Beth yw Lwfans Tai Lleol?

Lwfans Tai Lleol (LTLl) yw'r ffordd newydd o gyfrifo'r uchafswm Budd-dal Tai y gallwch ei gael. Bydd y swm a gewch yn dal yn dibynnu ar eich incwm a chynilion. Yr unig beth sy'n

newid yw'r ffordd yr ydym yn cyfrifo'r uchafswm Budd-dal Tai y gallwch ei gael. Byddwn yn cyhoeddi lefelau'r LTLl ar ein gwefan.

Beth a ddylwn ei wneud os na chytunaf â'r lefel o Lwfans Tai Lleol?

Ni allwch apelio yn erbyn y lefel o Lwfans Tai Lleol (LTLl) na'r Ardaloedd Marchnad Rhenti Eang (AMRhE) y mae'n seiliedig arnynt. Nid yw LTLl yn effeithio ar bawb. Gweler 'Arweinlyfr ar Lwfans Tai Lleol' am ragor o wybodaeth.

Os cewch brydau wedi eu coginio fel rhan o'ch tenantiaeth gallwch ofyn am ailbenderfyniad. Nid yw'r Gwasanaeth Rhenti yn rhoi ystyriaeth i'ch incwm wrth benderfynu, felly ni ddylai eich rheswm dros wneud cais am ail ddyfarniad fod a wnelo â lefel eich incwm. Bydd swyddog Gwasanaeth Rhenti o ardal arall yn ail ystyried y prisiad gwreiddiol a chewch wybod beth fydd canlyniad yr ail benderfyniad.

Dyfarniadau na allwch apelio yn eu herbyn

Gallwch ofyn am i unrhyw ddyfarniad y credwch sy'n anghywir gael ei adolygu. Ond mae yna rai dyfarniadau na allwch apelio yn eu herbyn mewn tribiwnlys, er enghraifft dyfarniadau:

- ynglŷn â pha wybodaeth a thystiolaeth sydd angen i chi eu cyflwyno
- i beidio â derbyn cais hwyr i newid dyfarniad
- i beidio â thalu'n ôl os ydych yn araf cyn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid
- ynglŷn â thalu gyda siec neu ba mor aml y cewch eich talu
- y gellir adennill gordaliad os oes hawl i wneud hynny
- ynglŷn â sut yr adenillir y gordaliad
- ynglŷn â Thaliadau Tai Dewisol

Datganiad Rhesymau

Gall person a effeithiwyd arno/arni ofyn i'r Cyngor ddarparu Datganiad Rhesymau ysgrifenedig. Nid yw'r Datganiad Rhesymau yn effeithio ar eich hawl apelio. Bydd y datganiad yn egluro sut y daeth y Cyngor i'w ddyfarniad. Bydd yr amser a gymer y Cyngor i ddarparu'r datganiad yn ymestyn yr amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais am adolygiad neu geisio apêl i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Beth ddylwn ei wneud pe dymunwn i'r dyfarniad gael ei adolygu?

Mae'n rhaid i chi anfon at Adran Fudd-daliadau eich Cyngor lleol o fewn **un mis** o ddyddiad y llythyr dyfarnu. Os oes yna amgylchiadau arbennig sy'n golygu na allwch ysgrifennu o fewn un mis, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch Cyngor lleol i egluro oherwydd efallai y gallant ddal adolygu'r penderfyniad.

Beth sy'n digwydd wrth adolygu dyfarniad?

Bydd y dyfarniad yn cael ei wirio gan swyddog gwahanol i'r un a wnaeth y dyfarniad gwreiddiol, i weld a yw yn un cywir.

Os gellir newid y dyfarniad:

- Os gellir newid y dyfarniad bydd yn cael ei ddiwygio o ddyddiad y dyfarniad gwreiddiol.
- Byddwch yn derbyn llythyr fydd yn egluro'r dyfarniad newydd.

Os na ellir newid y dyfarniad

- Os, ar ôl adolygu'r dyfarniad, na ellir ei newid, byddwch yn derbyn llythyr yn egluro pam.
- Mae gennych wedyn **un mis arall** i apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Rwy'n dymuno apelio yn erbyn y dyfarniad. Beth ddylwn i ei wneud?

Mae'n rhaid i chi wneud apêl ysgrifenedig, naill ai drwy lythyr neu drwy lenwi ffurflen apelio sydd ar gael gan Adran Fudd-daliadau eich Cyngor lleol. Mae'n rhaid i'ch apêl gael ei hanfon i'r swyddfa a nodir ar eich llythyr dyfarnu o fewn **un mis calendr** o ddyddiad y llythyr hwnnw.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn penderfynu ar eich apêl mewn gwrandawiad tribiwnlys. Bydd y gwrandawiad tribiwnlys yn cynnwys pobl nad ydynt o'r Cyngor.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'ch rhesymau dros apelio oherwydd nid oes raid i'r tribiwnlys edrych ar unrhyw beth nad ydych wedi sôn amdano yn eich llythyr na'ch ffurflen apelio. Ni all y tribiwnlys edrych ar y dystiolaeth, y deddfau a'r amgylchiadau ond yn unig ar yr adeg pryd y cafodd y dyfarniad yr apeliwch yn ei erbyn ei wneud.

Cofiwch, petai'r tribiwnlys yn canfod eich bod wedi derbyn gormod o arian, bydd eich budd-dal yn cael ei leihau.

Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag apeliadau a'r Gwasanaeth Tribiwnlys, ewch at ein gwefan os gwelwch yn dda – www.benefit-leaflets.org ble cewch ddolen uniongyrchol at gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Ym mha le y gallaf gael rhagor o gyngor?

Am ragor o gymorth neu gyngor, cysylltwch â'ch Cyngor lleol. (Cewch hyd i'r manylion cyswllt ar eich Bil Treth Cyngor.)

Cyngor annibynnol

Os ydych angen cyngor annibynnol, cysylltwch â'ch Canolfan Gynghori leol. Cewch hyd i'w rhif ffôn ynghyd ag asiantaethau cynghori lleol eraill yn y Llyfr Ffôn ac yn eich llyfrgell leol.

Fformatau Eraill

Gallwch gael y wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn mewn print bras, mewn Braille, mewn fersiwn glywedol ac mewn ieithoedd eraill. Ewch at ein gwefan www.benefit-leaflets.org am ragor o wybodaeth.